Cyllid & Tollau EM

Rhoi'r dechau gorau gyda threth i'ch busnes

Cynnwys

Rhagarweiniad: Dechrau arni 3

Rydych wedi penderfynu sefydlu busnes newydd. Ond beth nesaf?

Cofnodion y bydd angen i chi eu cadw

Adran Un: Pethau sydd angen i chi wybod 7

Hunangyflogedig, Partneriaeth neu Gwmni Cyfyngedig

Hunanasesiad

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Treth Gorfforaeth

Cyflogi pobl eraill (TWE)

Treth Ar Werth (TAW)

Beth sydd angen i chi wybod os ydych yn bwriadu mewnforio neu allforio cynhyrchion

Bod yn hunangyflogedig yn y diwydiant adeiladu

Adran Dau: Help llaw 21

Lwfansau, rhyddhad a chymhellion

Credydau treth

Adran Tri: Gwybodaeth bellach 25

Gwneud pethau ar-lein

Dyddiadau ar-lein allweddol i fod yn ymwybodol ohonynt

Mae cymorth ar gael gan Gyllid a Thollau EM

Mae cymorth cyffredinol ar gael

Mae llawer o gymorth ar gael i'ch helpu i sefydlu a rhedeg eich busnes.

Ewch i **www.businesslink.gov.uk** i weld ystod o fideos byr, offer, arweiniadau a thaflenni gwybodaeth defnyddiol ynglŷn â threth.

Cyflwyniad:
Dechrau arni

Rydych wedi penderfynu sefydlu busnes newydd. Ond beth nesaf?

Pan rydych yn sefydlu eich busnes eich hun fel masnachwr unigol hunangyflogedig neu mewn partneriaeth, **mae angen i chi gofrestru ar gyfer Hunanasesiad gyda Chyllid a Thollau EM (CThEM)**. Bydd CThEM yn sefydlu'r cofnodion treth ac Yswiriant Gwladol cywir ar eich cyfer a gallant eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi wybod ynglŷn â threth a'ch helpu i'w gael yn gywir. Os ydych yn hwyr yn hysbysu CThEM, gellir codi cosb arnoch. Mae peidio â thalu eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn peryglu eich hawl i fudd-daliadau.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen sydd ei hangen arnoch i gofrestru busnes newydd ar gyfer Hunanasesiad os ydych yn fasnachwr unigol hunangyflogedig neu mewn partneriaeth yn **www.hmrc.gov.uk/sa/register.htm**

Mae yna nifer o fideos ar-lein byr i'ch helpu i ddeall y gwahanol agweddau o ddechrau mewn busnes. Ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp** i ddilyn tri busnes wrth iddynt ddweud wrthym, yn eu geiriau eu hunain, beth mae'n debyg wrth fynd ar eich liwt eich hun.

Mae'r fideos ar-lein byr hyn yn cynnwys:

- Lwfansau Busnes
- Cynllun Diwydiant Adeiladu
- Treth Gorfforaeth
- Cyflogi pobl eraill (TWE)
- Treth Incwm ar gyfer yr hunangyflogedig
- Mewnforio ac Allforio
- Yswiriant Gwladol ar gyfer yr hunangyflogedig
- Cadw cofnodion
- Ymsefydlu mewn busnes
- TAW

Mae CThEM hefyd yn cynnwys gwasanaeth addysg am ddim sy'n cynnwys mynediad i gymorth a chyngor defnyddiol i arbed amser ac arian i chi. Am ragor o wybodaeth a manylion archebu ewch i **www.hmrc.gov.uk/bst**

Mae'r mathau gwahanol o dreth a chyfraniadau mae'n rhaid i chi eu talu yn dibynnu ar beth rydych yn ei wneud. Mae Adran Un y llyfryn hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi ar y gwahanol drethi a chyfraniadau.

Cofnodion y bydd angen i chi eu cadw

Mae'n hanfodol cadw cofnodion llawn a chywir o'ch incwm a'ch treuliau o'r cychwyn.

Mae cadw cofnodion yn gwneud synnwyr busnes ac mae'n ofyniad cyfreithiol. Mae'n bwysig, felly, bod system dda mewn bodolaeth o'r cychwyn cyntaf, a bod yr wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Mae cadw cofnodion da yn gwneud cwblhau eich ffurflen dreth/ffurflenni treth yn haws ac yn gyflymach, yn ei gwneud hi'n haws i chi dalu'r dreth gywir ar yr amser iawn ac yn eich helpu i osgoi talu llog a chosbau dianghenraid.

Dylech gadw anfonebau a derbynebau i ddangos beth rydych wedi ei brynu a'i werthu mewn perthynas â'ch busnes.

Os ydych yn cyflogi eraill, mae'n rhaid i chi gadw cofnodion o'u cyflogau a'r dreth/Yswiriant Gwladol rydych wedi ei didynnu/thalu i CThEM.

Mae cadw cyfriflenni banc a llyfrau cymdeithas adeiladu yn hanfodol, yn enwedig os nad oes gennych gyfrif busnes ar wahân. Dylech allu dangos yn glir beth rydych wedi'i wario'n bersonol (ar eitemau nad ydynt yn ymwneud â busnes) a'r hyn a wariwyd ar y busnes. Os ydych yn defnyddio arian parod, bydd angen derbynebau til a llyfr cofnodion arnoch er mwyn cadw cyfrif ohono i gyd.

Os ydych yn defnyddio rhan o'ch cartref ar gyfer busnes dylech gadw copïau o'r biliau gwasanaethau fel y gallwch gyfrifo'r swm a wariwyd mewn perthynas â'ch busnes.

Yn ogystal, os yw eich busnes wedi ei gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau, mae'n rhaid i chi gadw cofnodion cyfrifyddu penodol sy'n dangos trafodion eich cwmni a'i sefyllfa ariannol.

Os oes gennych gyfrifydd efallai hoffech gymryd ei sylw ar ba system sy'n gweddu eich busnes a sut i gadw eich cofnodion yn gyfoes.

Mae cadw cofnodion yn bwysig oherwydd gallech wynebu cosbau am beidio â chadw cofnodion cywir. Gallech wynebu cosbau pellach os anfonwch ffurflen dreth atom sy'n cynnwys anghywirdeb a achoswyd gan esgeulustod, megis peidio â chadw cofnodion cywir.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chymryd gofal rhesymol a'r cosbau newydd, ewch i **www.hmrc.gov.uk/about/new-penalties/new-penalties.pdf**.

Am gymorth gyda chadw cofnodion ewch i **www.businesslink.gov.uk/keepingrecords**.

I wylio'r fideo ar-lein byr 'Record Keeping' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Am wybodaeth am y cofnodion y bydd angen i chi eu cadw gweler y cysylltiad *What paper work should I be keeping* ar **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

I helpu sefydlu eich system eich hun ewch i **www.businesslink.gov.uk/recordkeeping**.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â gwiriadau cydymffurfio ewch i **www.hmrc.gov.uk/compliance/cc-fs7.pdf**.

Adran Un:
Pethau sydd angen i chi wybod

Hunangyflogedig, Partneriaeth neu Gwmni Cyfyngedig

Hunangyflogedig – unigolyn

Golyga hyn eich bod yn gweithio i chi eich hun, er y gallwch gael pobl yn gweithio i chi hefyd. Cyfrifir eich Treth Incwm, a rhan o'ch rhwymedigaeth Yswiriant Gwladol, drwy gyfeirio at elw eich busnes. Caiff y dreth/Yswiriant Gwladol sy'n ddyledus ar elw ei chyfrifo/gyfrifo a'i thalu/dalu drwy Hunanasesiad. Os oes gennych gyflogeion bydd angen i chi weithredu TWE (Talu Wrth Ennill) ar eu henillion.

Partneriaeth

Partneriaeth yw lle mae dau neu fwy o bobl yn sefydlu partneriaeth ar y cyd. Mae pob partner yn gyfrifol yn bersonol am holl ddyledion y busnes, hyd yn oed os achoswyd y ddyled gan bartner arall. Mae pob partner yn talu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol ar eu cyfran o elw'r busnes drwy eu ffurflen dreth Hunanasesiad eu hunain. Mae'r bartneriaeth yn enwebu un partner i fod yn gyfrifol am anfon Ffurflen Dreth y Bartneriaeth at CThEM.

Cwmni Cyfyngedig

Mae cwmni cyfyngedig wedi ei wahanu'n gyfreithiol oddi wrth ei gyfranddalwyr neu gyfarwyddwyr. Golyga hyn fod y cwmni'n atebol am unrhyw ddyled. Mae'n rhaid i'r cwmni dalu Treth Gorfforaeth ar ei elw trethadwy ac mae angen iddo ddarparu Ffurflen Dreth Cwmni – fel arfer yn flynyddol. O 1 Ebrill 2011, mae'n rhaid i'r ffurflen dreth hon gael ei chyflwyno ar-lein gydag unrhyw Dreth Gorfforaeth i'w thalu'n electronig.

Gallwch sefydlu cwmni eich hunan a'i gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau neu gallwch hefyd ddefnyddio asiant cofrestru cwmni i brynu cwmni 'parod'. Mae rhagor o wybodaeth yn y llyfryn hwn o dan 'Treth Gorfforaeth'.

Os ydych yn sefydlu cwmni cyfyngedig, fel cyfarwyddwr byddwch hefyd yn gyflogai – felly bydd angen i chi sefydlu a chofrestru cynllun TWE. Gallwch wneud hyn drwy ymweld â **www.hmrc.gov.uk/newemployers** neu drwy ffonio'r Llinell Gymorth Cyflogwyr Newydd ar **0845 302 1489**.

Fel cyfarwyddwr, bydd angen i chi gwblhau ffurflen dreth Hunanasesiad. Gall rheoli treth a chyfrifon ar gyfer cwmnïau cyfyngedig fod yn gymhleth. Bydd cyfreithiwr neu gyfrifydd yn gallu cynnig cyngor ar sefydlu cwmni cyfyngedig. Ewch i **www.businesslink.gov.uk/ct** ar gyfer nifer o arweiniadau ynglŷn â Threth Gorfforaeth.

Pa endid busnes bynnag rydych yn dewis ei ddefnyddio, efallai bydd angen i chi hefyd gofrestru eich busnes ar gyfer TAW.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â throthwyau cofrestru TAW, ewch i **www.businesslink.gov.uk/vatwhentoregister**.

I wylio'r fideos ar-lein byr 'Setting up in business' a 'Corporation Tax' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Mae'r tudalennau nesaf yn egluro mewn mwy o fanylder beth fydd angen i chi ei wneud i dalu eich treth a'ch CYG os ydych yn Hunangyflogedig, mewn Partneriaeth neu'n Gwmni cyfyngedig.

Hunangyflogedig

Hunanasesiad

Os ydych yn hunangyflogedig, rydych yn talu Treth Incwm drwy Hunanasesiad. Ar ôl i'r flwyddyn dreth ddod i ben ar 5 Ebrill, bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno ffurflen dreth Hunanasesiad. Gallwch ei wneud naill ai ar-lein neu drwy lenwi ffurflen bapur. Mae yna ddyddiadau cau gwahanol ar gyfer y ffurflenni treth bapur ac ar-lein.

Dyddiadau cau ffurflenni treth Hunanasesiad

Cyflwyno â phapur – mae'n rhaid i'r ffurflen dreth ein cyrraedd erbyn 31 Hydref. Efallai y codir cosb ar ffurflen dreth sydd wedi'i derbyn ar ôl y dyddiad hwnnw.

Cyflwyno ar-lein – mae'n rhaid i'r ffurflen dreth ein cyrraedd erbyn y 31 Ionawr dilynol. Mae hyn yn rhoi tri mis ychwanegol i chi. Cofiwch, os anfonwch chi'r ffurflen dreth yn hwyr efallai y codir cosb arnoch.

Mae tua thri chwarter o gwsmeriaid Hunanasesiad yn cyflwyno'u ffurflen dreth ar-lein yn barod. Yn ogystal â dyddiad cau hwyrach, rydym yn argymell cyflwyno eich ffurflen dreth ar-lein oherwydd:

- mae'n ddiogel ac yn gyfleus
- gallwch hefyd ei stopio, ei harbed a dychwelyd ati unrhyw bryd y dymunwch
- gwneir cyfrifiannau ar eich rhan yn awtomatig
- mae'n dangos i chi ar unwaith os oes arnoch unrhyw dreth i'w thalu
- mae'n cyfrifo unrhyw ad-daliad sy'n ddyledus ac yn ei brosesu'n gyflym (llawer yn gyflymach na'r fersiwn bapur cyfatebol a gyflwynir ar yr un pryd)
- cewch dderbynneb awtomatig sy'n nodi ei bod wedi cyrraedd yn ddiogel

Cwblhau eich ffurflen dreth os ydych yn unigolyn hunangyflogedig

I gwblhau eich ffurflen bydd angen gwybodaeth arnoch o'ch cofnodion busnes, derbynebau neu gyfriflenni banc. Os ewch i drafferthion, mae cyngor ar gael. Gallwch ymweld â **www.hmrc.gov.uk/sa** neu ffonio'r Llinell Gymorth Hunanasesiad ar **0845 302 1489**.

Rydych yn gyfrifol am gyfrifo faint o Dreth Incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol sy'n rhaid i chi eu talu. Fodd bynnag, os ydych yn cwblhau eich ffurflen dreth ar-lein, gwneir eich cyfrifiad yn awtomatig ar eich cyfer. Os dewiswch anfon ffurflen dreth bapur at CThEM, gall CThEM gyfrifo eich treth ar eich cyfer, ond **dim ond** os sicrhewch y derbynnir eich ffurflen dreth erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref.

Am gymorth gyda chwblhau a llenwi eich ffurflen ar-lein:

- gweler yr arweiniad yn **www.hmrc.gov.uk/sa/understand-online.htm**
- gweler arddangosiad o'r ffurflen dreth Hunanasesiad ar-lein yn **www.hmrc.gov.uk/demo** (mae hwn yn cynnwys pedwar astudiaeth achos)

Fel arall gallwch gael cyfrifydd neu gynghorydd treth i wneud hyn i gyd ar eich rhan.

Cofiwch, os gwnewch chi hyn, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr wybodaeth ar y ffurflen dreth yn gywir, yn gyflawn ac wedi'i derbyn gan CThEM mewn da bryd.

Partneriaeth

Cwblhau eich ffurflen dreth os yw eich busnes yn cael ei redeg fel partneriaeth

Bydd yn rhaid i bob partner lenwi tudalen atodol partneriaeth fel rhan o'u ffurflen dreth Hunanasesiad unigol eu hunain. Bydd yn rhaid i'r partner enwebedig hefyd gwblhau Ffurflen Dreth Partneriaeth, yn dangos cyfran pob partner o'r elw a cholledion. Gallai hyn hefyd gynnwys cwblhau tudalennau atodol eraill, yn dibynnu ar ba incwm sydd gan y bartneriaeth.

Eich cyfrif

Mae pawb sy'n cwblhau ffurflen dreth Hunanasesiad yn derbyn Datganiad Hunanasesiad. Mae hyn yn dangos faint sy'n ddyledus gennych a sut i dalu unrhyw dreth sy'n ddyledus. Mae hefyd yn dangos faint rydych wedi ei dalu a faint rydym wedi eich ad-dalu ers eich datganiad diwethaf. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer ein gwasanaeth Hunanasesiad Ar-lein, gallwch hefyd fwrw golwg ar eich datganiad ar-lein a sefydlu Debyd Uniongyrchol fel taliad unigol neu fel rhan o Gynllun Talu Cyllidebol misol neu wythnosol.

Talu eich treth ar yr amser iawn

O'ch ail flwyddyn o fasnachu, efallai bydd CThEM yn gofyn i chi wneud taliadau ar gyfrif. Mae'r rhain yn daliadau rhannol (neu, fel y cyfeirir atynt yn gyffredinol, taliadau ar gyfrif) tuag at eich bil treth nesaf. Mae'r taliadau ar gyfrif hyn yn seiliedig ar swm y dreth oedd yn ddyledus y flwyddyn flaenorol. Mae amodau penodol yn gymwys p'un a oes angen i chi wneud taliadau ar gyfrif.

Byddwch fel arfer yn gwneud dau daliad, un ar 31 Ionawr ac un ar y 31 Gorffennaf dilynol, yn ogystal ag unrhyw daliad mantoli ar 31 Ionawr. Os oes rhywbeth ar ôl i'w dalu bydd y swm hwn yn ddyledus ar ddiwedd y mis Ionawr dilynol.

I ganfod mwy ynglŷn â phryd mae taliadau ar gyfrif yn daladwy, ewch i **www.hmrc.gov.uk/sa**.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Income Tax for self-employed', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Rydym hefyd yn argymell talu drwy Ddebyd Uniongyrchol, sy'n opsiwn gwell gan nifer o gwsmeriaid gan ei fod yn cynnig, ymhlith manteision eraill, mwy o amser i dalu. I ganfod mwy ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**, cliciwch ar "Useful tools" ar frig y dudalen, yna ewch i "Tax Help Factsheets" a dewiswch *Paying your tax - what you need to know.*

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Telir cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan bron bawb sy'n gweithio ac maent yn cyfrif tuag at dalu am bensiynau, budd-daliadau a gofal iechyd. Mae peidio â thalu am eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn peryglu eich hawliau i fudd-daliadau.

Os ydych yn hunangyflogedig, mae dau fath o gyfraniadau Yswiriant Gwladol y mae angen i chi wybod amdanynt - Dosbarth 2 a Dosbarth 4:

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2

Ar gyfer 2011-12 mae hwn yn swm sefydlog o £2.50 yr wythnos. Rydym yn argymell eich bod yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol misol. I dalu yn fisol neu bob chwe mis drwy Ddebyd Uniongyrchol ewch i **www.hmrc.gov.uk/payinghmrc** a llenwch y ffurflen Debyd Uniongyrchol Dosbarth 2. Fel arall, byddwn yn anfon cais am daliad bob chwe mis. Os ydych mewn partneriaeth neu mae eich priod yn hunangyflogedig hefyd, mae pob person yn talu eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 eu hunain.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Mae'r rhain hefyd yn daladwy gan y mwyafrif o bobl hunangyflogedig. Cânt eu cyfrifo fel canran o'ch elw busnes blynyddol, ond rydych dim ond yn dechrau talu cyfraniadau Dosbarth 4 pan fydd eich elw yn cyrraedd terfyn penodol (£7,225 ar gyfer 2011-12).

Cyfrifir eich cyfraniadau Dosbarth 4 ar y cyd â'ch rhwymedigaeth Treth Incwm, yn seiliedig ar y ffigurau a roesoch ar eich ffurflen dreth Hunanasesiad. Rydych yn talu'r cyfraniadau Dosbarth 4 ar yr un pryd a'ch Treth Incwm. Os ydych mewn partneriaeth neu mae eich priod yn hunangyflogedig hefyd, mae pob person yn talu eu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 eu hunain.

Os ydych yn cyflogi staff, neu'n Gyfarwyddwr (ac felly yn gyflogai) cwmni, mae angen i chi hefyd wybod am gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 sy'n gymwys i enillion cyflogai.

Beth os nad ydych yn ennill llawer?

Gallwch wneud cais am Eithriad Enillion Bach (SEE) os nad ydych yn disgwyl cael elw o £5,315 neu fwy yn 2011-12. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/ffurflenniathaflenni_defnyddiol.htm** ar gyfer y ffurflen berthnasol a manylion ar sut i wneud cais. Dylech fod yn ymwybodol os ydych yn gwneud cais am SEE y bydd hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Os nad ydych yn gwneud cais am SEE, mae'n rhaid i chi dalu cyfraniadau Dosbarth 2 o ddechrau eich hunangyflogaeth. Gallwch hawlio ad-daliad os ydych yn canfod yn hwyrach bod eich enillion yn is na'r disgwyl, cyn belled â'ch bod yn gwneud eich cais yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1

Mae'r rhain yn daladwy gan y rhan fwyaf o bobl sy'n gyflogedig a'u cyflogwyr. Os ydych yn gyflogwr, rydych yn gyfrifol am ddidynnu cyfraniadau Dosbarth 1 gan eich cyflogeion ac am dalu'r rhai hynny a'ch rhan chi i CThEM.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A a Dosbarth 1B

Mae'r rhain yn daladwy ar fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr. Y cyflogwr sy'n gyfrifol yn gyfan gwbl am gost y rhain.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 3

Mae'r rhain yn daliadau gwirfoddol a wneir gan bobl sydd am dalu, ac sydd â hawl i dalu, cyfraniadau i'w helpu i fod yn gymwys am fudd-daliadau. Mae'r taliadau hyn yn cwmpasu unrhyw ddiffygion yn eich cofnod cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac yn helpu i amddiffyn eich hawl i Bensiwn y Wladwriaeth a Budd-dal Profedigaeth.

Allwch chi dalu gormod o Yswiriant Gwladol?

Gallwch, mae'n bosibl. Efallai eich bod yn talu gormod o gyfraniadau Yswiriant Gwladol os oes gennych, er enghraifft, fwy nag un swydd. Os ydych yn meddwl eich bod yn talu gormod mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn gyffredinol, gallwch wneud cais i ohirio eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 a Dosbarth 4 tan ddiwedd y flwyddyn dreth. Os ydych yn talu gormod, bydd CThEM yn anfon ad-daliad atoch. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar sut i wneud cais i gael y gordaliadau o gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ôl drwy fynd i **www.hmrc.gov.uk/working/intro/selfemployed.htm**.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'National Insurance for the self-employed' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Treth Gorfforaeth

Os ydych yn rhedeg cwmni cyfyngedig efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Gorfforaeth. Mae Treth Gorfforaeth yn dreth ar elw trethadwy cyffredinol eich cwmni.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â phwy sy'n agored i Dreth Gorfforaeth, ewch i **www.businesslink.gov.uk/ct/who-is-liable**.

Bydd CThEM yn anfon Pecyn Rhagarweiniol i bob cwmni sydd newydd ffurfio. Mae hyn yn helpu i'w gwneud yn haws i gwmnïau sydd wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar CThEM i sefydlu eu cofnodion treth gyda'r wybodaeth gywir.

Fel cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig, rydych hefyd yn gyflogai yn y busnes ac mae angen i chi dalu treth ar eich cyflog (gan gynnwys buddiannau, incwm difidend ac incwm arall sy'n deillio o'r cwmni) a gweithredu TWE a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar eich cyfer chi a'r holl gyflogeion.

Mae Treth Gorfforaeth yn ddyledus ar gyfer 'cyfnodau cyfrifyddu' sydd fel arfer yn 12 mis o hyd.

I gyfrifo faint o Dreth Gorfforaeth y bydd yn rhaid i'ch cwmni dalu, bydd angen i chi gyfrifo'r elw bydd yn rhaid i chi dalu treth arno. Am ragor o wybodaeth ar gyfnodau cyfrifyddu a chyfrifo eich elw trethadwy ar gyfer Treth Gorfforaeth, ewch i **www.businesslink.gov.uk/ct/intro**.

O fis Ebrill 2011 – ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu ar ôl 31 Mawrth 2010 – mae'n rhaid i bob Ffurflen Dreth Cwmni gael ei chyflwyno ar-lein a defnyddio'r fformat data Inline eXtensible Business Reporting Language (iXBRL) ar gyfer cyfrifon a chyfrifiannau yn y mwyafrif o achosion. Mae'n rhaid i Dreth Gorfforaeth a thaliadau perthnasol gael eu talu'n electronig hefyd. Mae CThEM hefyd yn darparu cynnyrch meddalwedd am ddim ar gyfer y rhai hynny sydd â materion syml ac mae yna hefyd ystod o feddalwedd masnachol ar gael neu, os hoffech, gallech ofyn i asiant i gyflwyno eich ffurflen dreth ar eich rhan.

Os ydych yn sefydlu cwmni cyfyngedig mae angen i chi wneud nifer o bethau:

- Dweud wrth CThEM bod eich cwmni'n bodoli a'i fod yn agored i dreth drwy gwblhau ffurflen CT41G (Manylion cwmni newydd). Cewch y ffurflen hon o **www.businesslink.gov.uk/ct/start-a-company**.
- Cwblhau Ffurflen Dreth y Cwmni ar gyfer eich cwmni o fewn 12 mis i ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu. Gallwch wneud hyn ar-lein yn **www.businesslink.gov.uk/ct/online**.
- Cyfrifo faint o Dreth Gorfforaeth sy'n ddyledus gan y busnes a'i thalu, heb asesiad gan CThEM.
- Sefydlu cynllun TWE a gweithredu TWE ar incwm cyflogeion, gan gynnwys Cyfarwyddwyr.

Mae llawer i'w wybod am Dreth Gorfforaeth ac mae llawer o bobl yn dewis defnyddio cyfrifydd i'w helpu i reoli hyn. Gallwch hefyd gael cymorth gyda'r hanfodion yn **www.businesslink.gov.uk/ct**.

Eich cyfrifoldeb chi (hyd yn oed os ydych yn cyflogi cyfrifydd) yw sicrhau bod yr holl ffurflenni treth angenrheidiol wedi'u cwblhau ar amser a'ch bod yn talu unrhyw dreth sy'n ddyledus gennych erbyn y dyddiad dyledus.

Os telir Treth Gorfforaeth yn hwyr neu os nad ydych yn talu'r swm cywir, codir llog ar eich cwmni ar yr hyn sy'n ddyledus neu a delir yn hwyr.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Corporation Tax' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Cyflogi pobl eraill (TWE)

Os ydych yn bwriadu cyflogi pobl eraill, mae angen i chi gael popeth wedi ei drefnu ym mhell o flaen llaw ynglŷn â'u tâl a'u treth.

Fel cyflogwr byddwch yn gyfrifol am gyfrifo a thalu treth TWE (Talu Wrth Ennill) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 eich cyflogeion i CThEM.

Bydd yn rhaid i chi hefyd dalu eich rhan chi fel cyflogwr o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ynghyd â chyfraniadau Dosbarth 1A neu Ddosbarth 1B lle'n briodol mewn perthynas â'r buddiannau a ddarperir. Mae yna bethau eraill y bydd angen i chi wybod amdanynt, megis yr isafswm cyflog cenedlaethol a sicrhau bod eich gweithwyr yn gymwys i weithio yn y DU. Ewch i **www.businesslink.gov.uk/employingpeople** am ragor o wybodaeth.

Efallai bydd angen i chi hefyd wneud taliadau eraill neu ddidynnu ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr ar ran eich cyflogwr. Efallai bod hyn yn ymddangos fel llawer i'w wneud, ond peidiwch â phoeni, mae llawer o gyngor a chymorth ar gael yn **www.businesslink.gov.uk/paye**.

I wylio'r fideo ar-lein byr 'Employing Other People' neu i ddarllen ynglŷn â sut i gychwyn, ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Os ydych yn gyfarwyddwr cwmni, ar fin cyflogi rhywun, neu eisoes wedi cyflogi eich cyflogai cyntaf, bydd angen i chi gofrestru fel cyflogwr gyda CThEM.

Gallwch gofrestru ag e-bost yn **www.hmrc.gov.uk/employers** neu ffoniwch y Llinell Gymorth Cyflogwyr Newydd ar **0845 302 1489**.

Os ydych yn cofrestru - ond am ba reswm bynnag dydych chi ddim yn cyflogi unrhyw un - mae'n rhaid i chi hysbysu CThEM, neu byddwn yn cymryd yn ganiataol y dylech fod yn gwneud taliadau treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer cyflogeion, ac efallai cewch fil amcangyfrifedig.

Pan fyddwch wedi cofrestru byddwn yn anfon eich cyfeirnod TWE atoch a gwybodaeth ynglŷn â sut i lawrlwytho Offer TWE Sylfaenol CThEM er mwyn eich helpu i redeg eich cyflogres. Bydd Cyfrifiannell P11 yn cyfrifo a chofnodi treth, cyfraniadau Yswiriant Gwladol ac unrhyw ddidyniadau Benthyciad Myfyriwr eich cyflogeion. Mae'r Gyfrifiannell P11 yn eich galluogi i gadw eich cofnodion cyflogres yn electronig a chyflwyno eich Datganiad Blynyddol y Cyflogwr a ffurflenni yn ystod y flwyddyn ar-lein yn uniongyrchol o'r Gyfrifiannell P11 os oes gennych hyd at ac yn cynnwys naw cyflogai ar 5 Ebrill.

O fis Ebrill 2011 mae'n rhaid i chi gyflwyno eich holl ffurflenni cyflogai sy'n cychwyn a gadael - yn ogystal â'r Datganiad Blynyddol y Cyflogwr - ar-lein. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/paye/file-or-pay/index.htm** am ragor o wybodaeth.

Treth Ar Werth (TAW)

Mae TAW yn dreth a godir ar y mwyafrif o drafodion busnes-i-fusnes a busnes-i-ddefnyddiwr yn y DU a drwy'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Pwy sy'n codi TAW ac ar beth y codir TAW?

Codir TAW dim ond gan berson sydd yn gofrestredig ar gyfer TAW - fel arfer busnes ond efallai bod yn rhaid i sefydliadau eraill gofrestru hefyd.

Maent yn codi TAW ar:

- nwyddau a gwasanaethau a werthir neu a gyflenwir fel arall (e.e. ffeirio) yn y DU
- nwyddau, a rhai gwasanaethau, a fewnforiwyd o lefydd y tu allan i'r UE
- nwyddau a gwasanaethau sy'n dod mewn i'r DU o wledydd UE

Mae'n rhaid i chi gofrestru ar gyfer TAW os oedd eich trosiant ar gyfer y 12 mis blaenorol dros y trothwy TAW neu eich bod yn credu y gall eich trosiant fynd dros y terfyn hwn yn fuan (cynyddir y terfyn yn flynyddol fel arfer yng Nghyllideb y Canghellor ac fe'i geir ar wefan CThEM). Gallwch gofrestru'n wirfoddol unrhyw bryd. Ceir rhai eithriadau rhag cofrestru.

Am wybodaeth ynglŷn â chofrestru ar gyfer TAW a phryd nad oes yn rhaid i chi gofrestru ewch i **www.businesslink.gov.uk/vatwhentoregister**.

Sut y codir a rhoi cyfrif am TAW?

Ar gyfer eitemau sydd ar gyfradd safonol neu ar gyfradd ostyngedig ar gyfer TAW, codir TAW ar y prynwr (treth allbwn) gan y gwerthwr sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW. Adenillir y TAW hwn gan y prynwr sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW (treth fewnbwn) ar ôl i nwyddau a gwasanaethau gael eu prynu.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, fel arfer rydych yn codi TAW ar eich gwerthiannau busnes ac yn adennill TAW ar eich pryniannau busnes. Y gwahaniaeth rhwng y TAW rydych yn codi a'r TAW rydych yn adennill yw swm y TAW mae'n rhaid i chi ei dalu i CThEM. Os yw swm y TAW rydych yn adennill yn fwy na gwerth y TAW rydych yn codi, yna mae CThEM yn eich talu chi.

Os nad ydych wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, nid ydych yn codi TAW ar eich gwerthiannau. Rydych yn talu TAW o hyd ar eich pryniannau ac ni allwch adennill y TAW hon.

Rydych fel arfer yn cyfrif am TAW ar sail chwarterol drwy lenwi Ffurflen TAW a'i hanfon at CThEM. Os ydych yn cofrestru busnes ar gyfer TAW mae'n rhaid i chi gyflwyno eich Ffurflen TAW ar-lein a thalu unrhyw TAW sy'n ddyledus yn electronig. Gallwch dalu ar-lein drwy Ddebyd Uniongyrchol (sy'n rhoi'r amser hiraf i chi dalu), CHAPS, Bacs, bancio dros y rhyngrwyd a bancio ffôn.

Cofiwch fod cofrestru yn orfodol pan fod eich 'trosiant trethadwy' yn fwy na'r trothwy TAW presennol. Gellir gwneud y mwyafrif o geisiadau cofrestru TAW ar-lein. Mae'r holl ffurflenni cofrestru TAW eraill ar gael i'w lawrlwytho yn **www.hmrc.gov.uk**.

Mae yna gynlluniau syml i helpu busnesau bach i reoli eu TAW.

Cynllun Cyfrifyddu Blynyddol

Gall y cynllun hwn eich helpu i reoli eich llif arian a gostwng eich gwaith papur. Rydych yn talu eich TAW mewn rhandaliadau ac yn anfon un ffurflen dreth flynyddol ynghyd â thaliad mantoli terfynol.

Gallwch gofrestru Ffurflenni TAW, talu drwy Ddebyd Uniongyrchol a rhoi hysbysiad o newidiadau i'ch busnes cofrestredig ar-lein. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk/vat**

Cynllun Cyfrifyddu Arian Parod

Gall y cynllun hwn eich helpu gyda'r llif arian, gan eich bod ond yn talu TAW pan mae eich cwsmer wedi eich talu. Gallwch ond adennill TAW ar bryniannau pan rydych wedi talu amdanynt.

Cynllun Cyfradd Safonol

Mae'r cynllun hwn yn gwneud cadw cofnodion yn haws ac yn helpu i leihau faint o amser rydych yn cymryd yn cyfrifyddu ar gyfer TAW. Rydych yn cyfrifo eich TAW drwy ddefnyddio canran cyfradd safonol i'ch trosiant.

Mae cymorth gyda dewis y cynllun gorau i chi ar gael yn **www.businesslink.gov.uk/vateligibleschemes**.

Am ragor o wybodaeth ynglyn â cynlluniau cyfrifyddu TAW ewch i **www.businesslink.gov.uk/vatschemes**.

Gallwch gyflwyno Ffurflenni TAW, talu drwy Ddebyd Uniongyrchol a rhoi hysbysiad o newidiadau i'ch busnes cofrestredig ar-lein. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk/vat.**

Cymorth a chefnogaeth arall

Am ragor o wybodaeth ynglyn â TAW, gan gynnwys sut i gyfrifo trosiant trethadwy, ewch i **www.businesslink.gov.uk/vat** neu ffoniwch **08450 10 90 00**.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'VAT', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Mae'r Daflen Wybodaeth: *VAT – What you need to know* yn rhoi cyngor defnyddiol ynglŷn â chadw cofnodion, sut i symleiddio gweinyddiad eich TAW drwy ddefnyddio'r cynlluniau cyfrifyddu sydd ar gael, cyflwyno ar-lein (sydd yn ofynnol i bob busnes sydd newydd gofrestru wneud nawr) a masnach ryngwladol.

Beth sydd angen i chi wybod os ydych yn bwriadu mewnforio neu allforio cynhyrchion

Mae mewnforio ac allforio yn golygu prynu neu werthu cynhyrchion y tu allan i'r UE. Os ydych yn bwriadu prynu cynhyrchion gan gyflenwyr neu werthu i gwsmeriaid y tu allan i'r UE, byddwch yn cymryd rhan mewn masnach ryngwladol.

Ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio o du allan yr UE, mae'n rhaid talu TAW a tholl mewnforio cyn gellir rhyddhau'r nwyddau. Mae toll yn dreth ychwanegol sy'n amrywio yn dibynnu ar y math o gynnyrch a'r wlad wreiddiol.

Os ydych yn allforio nwyddau a gwasanaethau, mae yna reolau TAW gwahanol ar gyfer allforio i wledydd yr UE a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

Mae digonedd o gymorth ar gael. I gychwyn ewch i **www.businesslink.gov.uk** a chan ddefnyddio'r ddewislen ar yr ochr chwith, dewiswch 'International Trade'.

Ar gyfer y 'Guide to importing and exporting: Breaking down the barriers' ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan yr adran busnesau a chorfforaethau, cliciwch ar y tab 'Import & export'.

Mae CThEM hefyd yn darparu seminarau am ddim a gweithdai ar fewnforio ac allforio i helpu busnesau i gydymffurfio â'u hymrwymiadau cyfreithiol. Ffoniwch **0845 603 2691** am ragor o wybodaeth.

Os ydych am allforio nwyddau neu wasanaethau, gall asiantaeth allforio'r Llywodraeth - Masnach a Buddsoddi y DU - hefyd gynnig gwybodaeth, hyfforddiant a chyngor i'ch helpu i gychwyn. Ewch i **www.uktradeinvest.gov.uk**.

I wylio'r fideo ar-lein byr 'Importing and Exporting' ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Efallai yr hoffech hefyd edrych ar y Daflen Wybodaeth: *Importing and exporting goods - what you need to know* am arweiniad pellach o'r gweithdrefnau y bydd angen i chi eu dilyn wrth ddod â nwyddau i mewn i'r DU o, ac anfon nwyddau allan o'r DU i, wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, a pha daliadau a thollau y bydd angen i chi eu talu. I gyrchu'r Taflenni Gwybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp** yna cliciwch ar y botwm "Useful tools".

Bod yn hunangyflogedig yn y diwydiant adeiladu

Rheolau arbennig ar gyfer y diwydiant adeiladu

Mae adeiladu yn derm eang. Mae'n cwmpasu bron unrhyw beth a wneir i adeiladau, pa un ai yn rhai parhaol neu dros dro, gan gynnwys newidiadau, addurno, atgyweirio neu ddymchwel.

Mae'n rhaid i gontractwyr ac isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu gydymffurfio â threfniadau trethiant arbennig. Os ydych yn gontractwr mae'n rhaid i chi wirio statws cyflogaeth pob is-gontractwr newydd gyda CThEM cyn gwneud unrhyw daliadau iddynt.

Mae'r Cynllun Diwydiant Adeiladu (CIS) yn gosod rheolau ar gyfer sut y mae'n rhaid trin taliadau i isgontractwyr ar gyfer gwaith adeiladu yn y diwydiant adeiladu ac mewn busnesau penodol eraill.

Mae yna reolau manwl sy'n amlinellu beth sy'n dod o dan y cynllun, ond yn gyffredinol, rhaid gwneud taliadau ar gyfer y gweithrediadau canlynol gyda'r CIS:

- dymchweliadau a chlirio safleoedd
- torri coed i lawr
- symud pridd, twnelu a chloddio
- paratoi a gosod sylfeini
- adeiladu neu newid unrhyw adeilad parhaol neu dros dro
- gosod peipiau, draeniau, carthffosydd neu geblau tanddaearol
- adeiladu, arwynebu neu atgyweirio ffyrdd neu ddreifiau
- unrhyw lanhau mewnol neu waith ffitiadau mewn adeiladau, gan gynnwys gwresogi, goleuadau, awyru, tymheru, cyflenwadau pŵer, draeniad, cyflenwad dŵr, ceginau neu ystafelloedd ymolchi
- unrhyw baentio ac addurno

Mae sawl gweithgaredd arall yn cael eu cwmpasu gan y cynllun ac mae rhai gweithgareddau hefyd wedi cael eu heithrio'n benodol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth p'un a yw'r CIS yn gymwys ar gyfer y gwaith rydych yn ei wneud, mae'n syniad da i wirio.

Gallwch lawrlwytho rhestr fanwl o weithrediadau sy'n cael eu cwmpasu gan y CIS o **www.businesslink.gov.uk/cis** neu gallwch ffonio Llinell Gymorth Cynllun Diwydiant Adeiladu CThEM ar **0845 302 1489**.

I wylio'r fideo ar-lein byr, 'Construction Industry', ewch i **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Adran Dau:
Help llaw

Lwfansau, rhyddhad a chymhellion

Mae yna lwfansau, rhyddhad a chymhellion all fod o ddefnydd i'ch busnes:

Lwfansau cyfalaf

Mae yna nifer o gynlluniau lwfansau cyfalaf i annog buddsoddiad mewn asedau penodol neu drwy fathau penodol o fusnesau.

Mae'r cynllun Lwfans Cyfalaf yn rhoi rhyddhad treth ar gyfarpar busnes, fel cyfrifiaduron, ceir, offer neu ddodrefn rydych yn bwriadu eu cadw. Yn eich blwyddyn busnes gyntaf, mae yna rai lwfansau ychwanegol.

Ni allwch hawlio am bethau rydych yn eu prynu neu eu gwerthu fel eich masnach – mae'r rhain yn cael eu hawlio fel treuliau busnes. Os ydych yn prynu ar hurbwrcas, gallwch hawlio lwfans cyfalaf ar gost wreiddiol yr eitem ond mae'r llog a'r costau eraill yn cyfrif fel treuliau busnes.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk/capitalallowances**.

Rhyddhad Ymchwil a Datblygu

Mae Rhyddhad Ymchwil a Datblygu (R&D) yn ryddhad Treth Gorfforaeth sydd naill ai yn gallu lleihau bil treth cwmni neu, ar gyfer rhai cwmnïau bach neu o faint canolig, yn darparu swm o arian parod.

Bwriad y Rhyddhad R&D yw annog mwy o wariant R&D er mwyn hyrwyddo buddsoddiad mewn arloesiad. I ganfod p'un a ydych yn gallu manteisio, ewch i **www.businesslink.gov.uk/ct/randd**.

Cymhellion buddsoddi uniongyrchol

Mae'r cynlluniau hyn oll yn cynnwys cymhellion buddsoddi er mwyn annog buddsoddi uniongyrchol mewn cwmnïau cymwys (ond nid mathau eraill o fusnes). Am ragor o wybodaeth ar y Cynllun Buddsoddi Mentergarwch neu'r Cynllun Menter Corfforaethol e-bostiwch **enterprise.centre@hmrc.gsi.gov.uk**.

I gael arolwg gweler y fideo byr ar "Business Allowances" yn **www.businesslink.gov.uk/taxhelp**.

Credydau Treth

Gall pobl hunangyflogedig a chyflogedig hawlio credydau treth. Taliadau gan y llywodraeth i helpu gyda chostau bob dydd yw credydau treth. Mae dau fath o gredyd treth - Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant.

Credyd Treth Gwaith

Mae Credyd Treth Gwaith ar gyfer pobl sy'n gweithio ar incwm isel, p'un a oes gennych blant ai peidio.

Os nad ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, mae angen eich bod yn gweithio'r oriau canlynol er mwyn derbyn Credyd Treth Gwaith.

- os ydych chi'n 25 mlwydd oed neu'n hŷn mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos
- os oes gennych anabledd ac rydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- os ydych chi'n 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac rydych yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod ar fudd-dal allan o waith cymwys am o leiaf 6 mis, mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- os ydych chi'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn mae angen eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos

Os ydych chi'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, rhaid eich bod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr i gael y Credyd Treth Gwaith. Efallai gallwch gael cymorth gyda chost y gofal plant cofrestredig neu gymeradwy rydych yn talu amdano. Gallwch ond gael help gyda gofal plant os ydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Os ydych yn un o gwpl, yn gyffredinol rhaid eich bod chi a'ch partner yn gweithio o leiaf 16 awr. Ond mae yna reolau arbennig os ydych chi neu eich partner yn analluog, yn y carchar neu yn yr ysbyty.

Telir elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith i'r person sy'n derbyn y Credyd Treth Plant.

Credydau Treth Plant

Mae Credyd Treth Plant ar gyfer pobl sy'n magu plant o dan 16, p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Os oes gennych blentyn sydd ag anabledd, efallai bod gennych hawl i fwy.

Gallwch hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn hyd at 31 Awst ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 mlwydd oed. Gallwch hefyd hawlio ar gyfer person ifanc sydd rhwng 16 ac 20 mlwydd oedd. Mae'n rhaid iddo/iddi fod mewn addysg llawn amser, nad ydyw'n addysg uwch, neu gwrs hyfforddiant cymeradwy.

Telir Credyd Treth Plant fel arfer i'r person sy'n bennaf gyfrifol am ofalu am y plentyn neu'r person ifanc.

Faint fyddwch yn ei gael?

Bydd y swm a dderbyniwch yn dibynnu ar eich incwm - neu eich incwm ar y cyd os ydych yn un o gwpl.

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y credydau treth yn **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**.

Mae holiadur ar-lein ar y wefan y gallwch ei ddefnyddio i wirio os ydych yn gymwys ar gyfer credydau treth ai peidio cyn gwneud cais.

Sut ydych chi'n hawlio?

Ffoniwch y Llinell Gymorth Credydau Treth ar **0845 302 1489** a gofynnwch am becyn cais.

Os ydych yn cael credydau treth yn barod

Os ydych yn mynd o fod yn gyflogedig i fod yn hunangyflogedig ac rydych eisoes yn hawlio credydau treth, bydd yn rhaid i chi ddweud wrth y Llinell Gymorth Credydau Treth bod eich incwm am newid. Byddai o gymorth petaech yn gallu rhoi amcangyfrif o beth ydych yn meddwl fydd eich incwm.

Adran Tri:
Gwybodaeth bellach

Gwneud pethau ar-lein

Gwasanaethau Ar-lein

Mae'n rhaid i chi nawr gyflwyno ffurflenni a datganiadau penodol ar-lein gan fod hyn yn ofyniad cyfreithiol. Er enghraifft, erbyn Ebrill 2011 mae'n rhaid i bob ffurflen TWE ar gyfer cyflogeion sy'n dechrau neu'n gadael a'ch Datganiad Blynyddol y Cyflogwr gael eu cyflwyno ar-lein.

Drwy'r arweiniad hwn byddwch wedi sylwi ar nifer o gyfeiriadau at wefannau a chyfleusterau ar-lein. Dyw hi erioed wedi bod yn haws i reoli eich busnes ar-lein, ac mae ystod o wasanaethau gwahanol ar gael gan CThEM i'ch helpu chi i gychwyn.

Mae'r rhain yn cynnwys cymorth ar gyfer:

- unigolion a chyflogeion
- cyflogwyr
- busnesau a chwmnïau
- asiantau ac ymarferwyr treth

Ewch i wefan CThEM yn **www.hmrc.gov.uk** am ragor o wybodaeth. Cysylltwch â CThEM os ydych angen help wrth ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein.

Ewch i **www.hmrc.gov.uk/olshelpdesk** am gyngor ar yr holl wasanaethau ar-lein ar wahân i TAW Ar-lein. Ar gyfer TAW Ar-lein ewch i **www.hmrc.gov.uk/olshelpdesk/vat**.

I weld arddangoswr ar-lein CThEM ewch i **www.hmrc.gov.uk/demo**.

Cymorth gyda chyfrifiaduron a TG

Mae rhaglen 'Cyflawni Arfer Gorau yn Eich Busnes' y llywodraeth yn helpu busnesau bychain i ddefnyddio TG. Mae cyngor ymarferol ar gael hefyd, yn ogystal â llyfrynnau a chanolfan adnoddau e-fasnach. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk**.

Dyddiadau ar-lein allweddol i fod yn ymwybodol ohonynt

2011

Bydd yn rhaid i bob cyflogwr gyflwyno Datganiad Blynyddol y Cyflogwr (ffurflenni P35/P14) ar-lein. Mae hyn yn berthnasol i'r datganiad sydd i'w gyflwyno erbyn 19 Mai 2011 a phob datganiad ar ôl hynny.

O Ebrill 2011, mae'n rhaid i ffurflenni ar gyfer cyflogeion sy'n dechrau a gadael (h.y. ffurflenni P45/46) gael eu cyflwyno ar-lein gan bob cyflogwr.

O Ebrill 2011, mae'n rhaid i bob Ffurflen Dreth Cwmni gael eu cyflwyno ar-lein ar gyfer unrhyw gyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar ôl 31 Mawrth 2010. O'r un dyddiad, bydd yn rhaid i gwmnïau a sefydliadau dalu unrhyw Dreth Gorfforaeth a thaliadau eraill sy'n ddyledus yn electronig.

Yn ogystal, os ydych yn paratoi cyfrifon o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, rhaid i chi gyflwyno eich cyfrifon a'ch cyfrifiannau mewn fformat penodol – iXBRL.

2012

Bydd yn rhaid i fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW eisoes ac sydd â throsiant TAW neilltuedig blynyddol o £100,000 (ac sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW cyn 1 Ebrill 2010) gyflwyno eu ffurflenni TAW ar-lein a thalu unrhyw TAW sy'n ddyledus yn electronig.

Mae cymorth ar gael gan Gyllid a Thollau EM

Cymorth Cyffredinol
Mae sawl ffynhonnell wybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gael i bobl sy'n dechrau busnes newydd. Does neb yn disgwyl i chi wybod sut i wneud popeth.

Hunanasesiad
Hunanasesiad: **www.hmrc.gov.uk/sa** neu ffoniwch **0845 302 1489**.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol
Yswiriant Gwladol: **www.hmrc.gov.uk/nic** neu ffoniwch ymholiadau Yswiriant Gwladol i unigolion ar **0845 302 1489**.

Yn Newydd Hunangyflogedig **www.hmrc.gov.uk/startingup** neu ffoniwch **0845 302 1489**.

Llinell Gymorth Gwasanaethau Gohirio ffoniwch **0845 915 7141** (Saesneg yn unig).

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer pobol hunangyflogedig gydag enillion bychain ewch i **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/ffurflenniathaflenni_defnyddiol.htm** (mae hwn yn cynnwys y ffurflen Eithriad Enillion Bychain).

Cyfraniadau Gwirfoddol Yswiriant Gwladol ewch i **www.hmrc.gov.uk/nic/ca5603.pdf**.

Yswiriant Gwladol ar gyfer Cyfarwyddwyr Cwmni ewch i **www.hmrc.gov.uk/nitables/ca44.pdf**.

Treth Gorfforaeth
Am gymorth gyda Threth Gorfforaeth mae angen i chi gysylltu â'ch swyddfa leol - ceir manylion cyswllt yn **www.hmrc.gov.uk/ct**.

TWE
Gwefan y cyflogwr ewch i **www.hmrc.gov.uk/employers**.

Llinell Gymorth Cyflogwyr Newydd ffoniwch **0845 302 1489**.

Llinell wybodaeth Deddf Lleiafswm Cyflog Cenedlaethol ffoniwch **0845 6000 678** (Saesneg yn unig).

Gweithio yn y DU, ewch i **www.businesslink.gov.uk** am ragor o wybodaeth.

TAW
Ewch i **www.businesslink.gov.uk** neu ffoniwch **0845 010 0300** am ragor o wybodaeth.

Diwydiant Adeiladu
Cynllun Diwydiant Adeiladu ewch i **www.hmrc.gov.uk/cis** neu ffoniwch **0845 302 1489**.

Credydau treth
Credydau treth ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxcredits** neu ffoniwch **0845 302 1489** neu anfonwch neges testun i **0845 300 3909**.

Wyneb yn wyneb

Mae CThEM hefyd yn darparu digwyddiadau 'Diwrnodau Agored Cyngor i Fusnesau'. Mae'r digwyddiadau hyn yn dod ag arbenigwyr o swyddfeydd allweddol y llywodraeth a sefydliadau cymorth lleol i roi safbwynt busnes ehangach. Mae Diwrnod Agored Cyngor i Fusnesau yn cynnig amrywiaeth o gynhyrchion addysg a chymorth am ddim ar gyfer busnesau drwy arddangosfeydd helaeth a rhaglenni seminar yn ystod y dydd.

I ganfod mwy am Ddiwrnodau Agored Cyngor i Fusnesau ffoniwch **0845 603 2691** neu ewch i **www.businesslink.gov.uk/advicedays**.

Cael rhywun arall i'w wneud ar eich rhan

Gall cyfrifydd eich helpu i drefnu eich busnes i'w wneud mor fuddiol yn ariannol i chi â phosib. Ceir gwybodaeth a chyngor ynghylch sut i ddewis cyfrifydd yn **www.businesslink.gov.uk**.

Mae cymorth cyffredinol ar gael

Business Link

Mae Business Link yn wasanaeth a gyllidir gan y llywodraeth sy'n darparu'r wybodaeth, cyngor a chefnogaeth sydd ei angen arnoch i gychwyn, cynnal a thyfu busnes. Yn hytrach na rhoi'r holl gymorth a'r cyngor ei hunan, mae Business Link yn eich rhoi mewn cysylltiad â'r arbenigwyr lleol sydd eu hangen arnoch.

Maent hefyd yn cynhyrchu 'The No-Nonsense Guide' i reolau a rheoliadau'r llywodraeth ar gyfer sefydlu eich busnes.

Mae tudalennau gwe TAW a gwasanaethau cyflwyno ar-lein CThEM ar gael nawr ar y wefan Business Link yn **www.businesslink.gov.uk/vat**. Business Link yw gwefan swyddogol y llywodraeth ar gyfer busnes. Fe'i rhedir a'i rheolir gan CThEM.

Gallwch ddefnyddio Business Link i ddod o hyd i bopeth rydych ei angen i ddelio â TAW ar gyfer eich busnes, gan gynnwys:

- sut a phryd i gofrestru ar gyfer TAW, gan gynnwys cofrestru ar-lein
- cyrchu'r gwasanaeth ar-lein ar gyfer cyflwyno eich ffurflenni TAW
- cysylltiadau i ffurflenni TAW i chi i'w lawrlwytho a'u cwblhau
- newidiadau i TAW a sut allent fod yn gymwys i'ch busnes.

Cymru

Busnes, Cymorth, Gwybodaeth a Chyngor
Ewch i **www.business.wales.gov.uk** neu ffoniwch **03000 6 03000**.

Lloegr

Business Link
Ewch **www.businesslink.gov.uk**
neu ffoniwch **0845 600 9006**.

Yr Alban (Lowlands)

Small Business Gateway
Ewch i **www.bgateway.com**
neu ffoniwch **0845 609 66 11**.

Yr Alban (Highlands)

Highlands and Islands Enterprise Information Source
Ewch i **www.hiebusiness.co.uk**
neu ffoniwch **0845 609 66 11**.

Gogledd Iwerddon

Northern Ireland Business
Ewch i **www.nibusinessinfo.co.uk**
neu ffoniwch **0800 027 0639**.

Asiantau menter a siambrau masnach

Mae asiantau menter a siambrau masnach hefyd yn cynnig cefnogaeth. Os ydych yn 18-30 mlwydd oed, efallai gallwch gael cymorth gan Ymddiriedolaeth y Tywysog. Ar y pegwn arall, mae PRIME yn helpu'r rhai dros 50 mlwydd oed.

Canolfan Byd Gwaith

Os ydych yn ddi-waith, dywedwch wrth eich Canolfan Byd Gwaith eich bod yn meddwl am weithio i chi eich hun. Yn ogystal â rhoi trefn ar eich budd-daliadau a'ch credydau treth, mae'n bosibl y gallech gael cymorth arall hefyd.

© Hawlfraint y Goron Ebrill 2011

SE2 Cymraeg

L22933